

Ymateb UCAC i Ail Adroddiad yr IWPRB, ac i ymateb y Gweinidog Addysg i'r prif argymhellion

Medi 2020

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Ymateb UCAC i Ail Adroddiad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB), ac i ymateb y Gweinidog Addysg i'r Prif Argymhellion

Croesawa UCAC y cyfle i ymateb i ail adroddiad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB), ac i ymateb y Gweinidog Addysg i brif argymhellion y Corff eleni.

Mae'r argymhellion, a'r ffaith eu bod oll wedi'u derbyn mewn egwyddor gan y Gweinidog, yn gosod sail ar gyfer cyfundrefn gwirioneddol Gymreig – hynny yw, tâl ac amodau gwaith sy'n cyd-fynd â'n system addysg yma yng Nghymru. Mae hynny i'w groesawu'n aruthrol.

Mae'r ffaith fod yr adroddiad wedi'i gyhoeddi, a'r rhan fwyaf o'r gwaith wedi'i gyflawni yn ystod cyfnod gwbl eithriadol COVID-19, yn dyst i ymroddiad a phroffesiynoldeb y Corff ei hun a'r rhanddeiliaid.

Argymhelliad 1:

Rydym yn derbyn y codiadau cyflog a argymhellir, gan gynnwys y ffaith fod y Gweinidog yn bwriadu rhagori ar yr argymhelliad mewn perthynas ag ystodau cyflog arweinwyr ysgol, athrawon heb gymhwyso ac ymarferwyr arweiniol, yn ogystal â lwfansau athrawon.

Nodwn fod y codiadau cyflog hyn ychydig yn uwch na'r lefelau chwyddiant ar ddechrau'r flwyddyn cyn COVID-19, a'r codiad cyflog i Athrawon Newydd Gymhwyso (8.4%) yn sylweddol uwch.

Er y gwelwn y rhesymeg dros godi cyflogau cychwynnol athrawon, rhybuddiwn yn erbyn lleihau'r gwahaniaethau rhwng y graddfeydd yn ormodol - rhwng y cyflog cychwynnol a gweddill cyflogau'r brif raddfa, ac yn ogystal rhwng y brif raddfa a'r raddfa arweinyddiaeth. Mi allai lleihau'r gwahaniaethau fod yn niweidiol i ddilyniant gyrfa dros y tymor hirach.

Yn ogystal, gan fod y Corff wedi nodi'r anawsterau wrth geisio llenwi swyddi arweinyddion, a gan ystyried lefel y cyfrifoldebau sydd arnynt, mater sydd wir wedi'i amlygu dros y chwe mis diwethaf, mae'n siom i UCAC bod y codiad cyflog iddynt yn llai nag i rannau eraill o'r proffesiwn.

Rydym yn croesawu tacluso a chysoni'r Prif Ystod Cyflog i greu ystod sy'n cynnwys 5 pwynt. Ym marn UCAC nid oedd unrhyw gyfiawnhad dros barhau gyda phwynt disgrisiynol 6a. Roedd y defnydd yn ymddangos yn fympwyol ac yn gallu golygu fod athrawon mewn rhai ysgolion yn gorfod aros blwyddyn ychwanegol i allu symud i'r Ystod Cyflog Uwch. Roedd hynny'n annheg ac yn gallu arwain at wahaniaethu rhwng athrawon. Mae'n braf ei weld yn diflannu.

Argymhelliad 2:

Croesawn yn fawr iawn yr argymhelliad i ailgyflwyno graddfeydd cyflog statudol cenedlaethol, gan gynnwys y bwriad i wneud hynny o fis Medi 2020 a'u nodi yn y Ddogfen. Mi ddylai hynny fod yn fuddiol o safbwynt cefnogi llwybr gyrfaol clir i athrawon, gan helpu i gadw athrawon ar draws yr ystod oedran. Rydym yn hynod o falch bod y Gweinidog yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Cytunwn yn llwyr y dylai cyflog pob athro gael ei gydweddu i'r pwynt uchaf nesaf ar y raddfa statudol os nad yw'n cyd-fynd yn union â phwynt ar y raddfa statudol newydd.

Pwyswn ar bawb i wneud popeth posib i weithredu'r newidiadau statudol erbyn mis Medi 2020. Ond os yw'n *wirioneddol* amhosib cyflwyno'r newid erbyn mis Medi 2020, cytunwn gyda'r argymhelliad i fabwysiadu'r graddfeydd cyflog cenedlaethol diwygiedig yn wirfoddol ar lefel awdurdod lleol yn gyntaf cyn eu cyflwyno'n statudol cyn gynted â phosib.

Argymhelliad 3

Rhodddwn groeso mawr yn ogystal i'r argymhelliad hwn i ddileu'r cysylltiad rhwng perfformiad a chyflog, ac yn hytrach bod athrawon, yn arferol, yn symud i fyny'r Prif Raddfa un pwynt yn flynyddol – a hynny o fis Medi 2020.

Cytunwn yn gryf bod angen dod â chysondeb i'r broses o symud o'r naill ystod i'r llall, a bod angen ymchwilio i'r mater er mwyn gwneud newidiadau pendant erbyn mis Medi 2021 gan roi ystyriaeth i osod profiad, nid perfformiad, fel sail i groesi'r trothwy.

Argymhelliad 4

Cytunwn â'r argymhelliad i adael yr elfennau o hyblygrwydd yn eu lle am eleni ac ymchwilio ymhellach gyda golwg ar wneud argymhellion penodol yn y dyfodol.

Argymhelliad 5

Unwaith eto, cytunwn â'r argymhelliad i adael y CADau fel ag y maent am eleni ac ymchwilio ymhellach gyda golwg ar wneud argymhellion penodol yn y dyfodol. Awgrymwn yn gryf y dylid cynnwys lwfansau Anghenion Addysgol Arbennig, a lwfansau Denu a Chadw yn yr ystyriaethau hynny.

Argymhelliad 6

Croesawn yn fawr iawn yr argymhelliad hwn i ailgyflwyno trefniadau hyglludedd cyflog safonol.

Byddwn yn galw ar awdurdodau lleol i argymhell yn gryf i'r ysgolion eu bod yn mabwysiadu'r egwyddor hon yn wirfoddol o fis Medi eleni wrth baratoi ar gyfer gofyniad statudol y flwyddyn nesaf.

Byddai'n dda cael rhagor o wybodaeth ynghylch pwy yw'r cyrff perthnasol a beth yn union yw natur y trafodaethau a gwaith pellach y disgwylir iddynt ymgymryd â nhw yn y cyd-destun hwn. Disgwylwn, mewn ysbryd o bartneriaeth gymdeithasol, y bydd yr undebau cydnabyddedig yn rhan o'r trafodaethau hynny.

Argymhelliad 7

Cytunwn â'r 'agenda amlinellol' o faterion sydd angen sylw pellach gan y Corff a'r rhanddeiliaid.

At y rhestr hon, byddai UCAC yn ychwanegu mater sydd angen sylw ar frys, sef **tâl ac amodau gwaith Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** a'r angen i sicrhau cysondeb iddynt - p'un ai trwy'r system CADau/lwfansau, neu trwy fecanweithiau eraill. Gyda rôl y Cydlynnydd ADY yn dod yn statudol ym mis Ionawr 2021 dan ddarpariaethau'r Ddeddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, mi fyddai wedi bod yn dda cael argymhelliad ynghylch y mater hwn eleni. Pwyswn am gael sicrhau trefn a chysondeb erbyn mis Medi 2021.

Ymateb i'r pum mater sy'n gysylltiedig â chyflog ac amodau athrawon ac arweinwyr

Amseriad y cylch cyflogau blynyddol

Cytunwn fod angen i'r amserlen fod yn gadarn a chaniatáu digon o amser i'r Corff gyflawni ei waith mewn modd pwyllog a phroffesiynol.

Yn ogystal, mi ellid rhoi ystyriaeth i newid amserlen y Cylch i gyd-fynd yn well ag amserlen y flwyddyn ariannol. Ar hyn o bryd, mae cyllidebau ysgolion yn cael eu gosod heb wybod maint y bil cyflogau am hanner y flwyddyn.

Cydraddoldebau

Cytunwn â'r cais i Lywodraeth Cymru atgoffa awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion o'r gofyniad cyfreithiol sydd arnynt i fonitro ac adrodd ar agweddau ar benderfyniadau cyflog sy'n ymwneud â chydraddoldebau. Gofynnwn am ganllawiau pwrpasol, a hyfforddiant yn ôl yr angen, i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol er mwyn hybu dealltwriaeth a hwyluso'r gwaith.

Llwyth gwaith

Cytunwn yn gryf bod angen parhau i weithredu i ddod â llwyth gwaith athrawon ac arweinwyr ysgol dan reolaeth. Oes, mae angen cefnogi gweithredu cynllun cenedlaethol Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r gweithlu – mi fyddai sicrhau cyflenwad digonol ac addas o weithwyr addysg yn sicr yn cyfrannu at leihau llwyth gwaith diangen. Yn ogystal mae angen i bob rhanddeiliad ymrwymo i'r Siarter Llwyth Gwaith newydd.

Ymgynghori â chyflogwyr

Cytunwn y byddai'r Corff yn elwa o glywed llais *cynrychioliadol* llywodraethwyr ysgolion.

Polisiâu cyflog

Cytunwn yn gryf gyda'r cais hwn i lunio polisi cyflog enghreifftiol ar lefel genedlaethol. Mae sicrhau cymaint â phosib o gysondeb ledled Cymru, oddi fewn i fframwaith tâl ac amodau gwaith cenedlaethol, yn fanteisiol i bawb, ac yn debygol o leihau biwrocratiaeth ddiangen yn sylweddol ar sawl lefel.

Edrychwn ymlaen nawr at fynd i'r afael â thrafodaethau'r Cylch nesaf er mwyn parhau i wella tâl ac amodau gwaith athrawon Cymru.



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

[f facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [t twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)